Cyfansoddiad Cynghrair Cyfansoddiad Cynghrair Bro Aberffraw Alliance

1. **TEITL**
Cyfeirir at y Grŵp fel Cynghrair Bro Aberffraw

2. **DATGANIAD CENHADAETH**
Mae Cynghrair Bro Aberffraw Alliance yn bartneriaeth rhwng cymunedau yn y ward Bro Aberffraw, gwasanaethau cyhoeddus, busnesau lleol a'r trydydd sector, sydd â buddiant personol mewn iechyd a lles trigolion yr ardal. Mae'r holl gynrychiolwyr yn gweithio gyda'i gilydd i arwain ar gynllunio a darparu gwasanaethau sydd yn addas i anghenion cymuned Bro Aberffraw.

3. **NODAU ac AMCANION**

- Hyrwyddo cymunedau cryf a chadarn o fewn ward Bro Aberffraw.
- Mynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn yr Ward.
- Cydweithio i adnabod cyfleoedd er mwyn darparu a chynllunio gwasanaethau lleol ar y cyd.
- Sicrhau bod unigolion a grwpiau yn cael cydraddoldeb cyfle, a mynediad at wasanaethau sydd yn addas i'w hanghenion.
- Adnabod a gwneud cais am gyllid priodol i helpu i roi sylw i flaenoriaethau a nodir.
- Hyrwyddo ffordd o fyw iach ac actif, cyfleoedd mewn cyflogaeth ac addysg i bawb yn y gymuned.
- Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau a chymdeithasau, yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn cydlynu ffordd dda o gynllunio ar gyfer dyfodol ward Bro Aberffraw.

4. **RHEOLAETH**
Swyddogion Anrhydeddus Cynghrair Bro Aberffraw Alliance, a etholir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a fydd yn gyfrifol am reoli'r gynghrair o ddydd i ddydd.

5. **Y SWYDDOGION**
Swyddogion Bro Aberffraw Alliance fydd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, yr Ysgrifennydd, a'r Trysorydd a fydd yn aros mewn swydd am flwyddyn. Gellir cyflwyno enwau swyddogion i gael eu hail-ethol yng nghyfarfod blynyddol cyffredinol y Gynghrair.

6. **AELODAETH**
Bydd aelodaeth y Gynghrair yn agored i grwpiau, sefydliadau a busnesau cymunedol yn ward Bro Aberffraw a bydd yn cynnwys:
Cynrychiolwyr Sefydliadau a Grwpiau Cymunedol yn Ward Bro Aberffraw
Cynrychiolwyr Cyngor Tref a Chymuned.
Medrwn Môn
Cynllun Tro Da Benllech
Cyngor Ynys Môn
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Nid yw'r rhestr yn derfynol a gall yr aelodau ychwanegu ati mewn cyfarfod o'r Gynghrair.

Gellir cyfethol aelodau newydd ar y rhestr ble bydd yr aelodau a'r Swyddogion presennol yn teimlo bod hyn yn briodol er mwyn bodloni blaenoriaethau'r Gynghrair.

7. **CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y GYNGHRAIR**
Cynhelir cyfarfod cyffredinol blynyddol y Gynghrair ym mis XXX pob blwyddyn – efallai blwyddyn i ddyddiad arwyddo'r cyfansoddiad

Rhaid i'r Ysgrifennydd roi o leiaf deng niwrnod o rybudd o ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod hwn. Yn unol â gofynion y cyfansoddiad, rhaid i'r Ysgrifennydd hefyd fod yn gyfrifol am anfon yr agenda, yn ogystal â chopi o'r adroddiad blynyddol a'r fantolen am y flwyddyn ariannol flaenorol.

8. **CYNGHRAIR BRO ABERFFRAW ALLIANCE**
Y Cadeirydd a fydd yn cadeirio pob cyfarfod os bydd yn bresennol. Fel arall, yr Is-gadeirydd a fydd yn cadeirio'r cyfarfod.

Os na fydd y Cadeirydd na'r Is-gadeirydd yn bresennol, gall yr aelodau sydd yn bresennol ethol cadeirydd o blith yr aelodau hynny sydd yn bresennol.

Mae'n rhaid cael o leiaf pump o'r aelodau â phleidlais yn bresennol er mwyn cynnal cyfarfod o'r Gynghrair.

Bydd y Gynghrair yn anelu i gael cynrychiolydd o ardaloedd Cyngor Tref a Chymuned yn Ward Bro Aberffraw.

Bydd cyfarfodydd Cynghrair Bro Aberffraw Alliance yn agored i bawb fynychu a bydd gan gynrychiolwyr enwebedig y Gynghrair hawliau pleidleisio o safbwynt penderfyniadau yn ymwneud â materion yn gysylltiedig â phenderfyniadau am geisiadau am gyllid a gwariant.

9. **PLEIDLEISIO**
i. Ym mhob cyfarfod, gellir penderfynu ar faterion drwy ddangos dwylo.
ii. Er bod mwy nag un aelod o sefydliad yn cael dod i gyfarfodydd y Gynghrair, dim ond un bleidlais sydd gan bob sefydliad neu grŵp.
iii. Mae gan Gadeirydd y Gynghrair yr hawl i'w bleidlais ei hun yn ogystal â phleidlais fwrw ble bydd y bleidlais yn gyfartal.

10. **ARIANNOL**
i. Mae gan Gynghrair Bro Aberffraw Alliance yr hawl i weinyddu'r cyllid, a'r arian a sicrheir gan y prosiect i hybu ei nodau a'i hamcanion.
ii. Bydd popeth a brynir ar ran y grŵp, ac a ddefnyddir gan y swyddogion neu'r aelodau, yn parhau yn eiddo Cynghrair Bro Aberffraw Alliance.

iii. Rhaid i ddau lofnodwr, o leiaf, awdurdodi'r taliad ar unrhyw drafodiad ar ran y grŵp. Y llofnodwyr fydd y Trysorydd ac unrhyw un o ddau Swyddog arall y Gynghrair.
iv. Darperir taflen incwm a gwariant ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a rhaid gwirio a chymeradwyo cyfrifon yn annibynnol pob blwyddyn.
v. Bydd y Gynghrair yn sefydlu prosesau gwerthuso a monitro er mwyn sicrhau y gellir darparu'r adborth a'r adroddiadau angenrheidiol i gyllidwyr allanol.

11. **NEWID Y CYFANSODDIAD**
Gellir newid, gwella neu ychwanegu at y cyfansoddiad, mewn Cyfarfod Arbennig o'r Gynghrair yn unig neu yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol y Gynghrair drwy bleidlais gan o leiaf dwy ran o dair o'r aelodau â phleidlais yn bresennol.

Gellir galw Cyfarfod Arbennig o'r Gynghrair a hynny gan ddim llai na phum aelod o'r Gynghrair.

Dylid gwneud unrhyw newid, welliant neu ychwanegiad at y cyfansoddiad drwy hysbysiad o gynnig a gyflwynir i'r ysgrifennydd o leiaf fis cyn galw Cyfarfod Arbennig neu'r cyfarfod cyffredinol blynyddol.

12. **DIDDYMU**
Gellir diddymu Cynghrair Bro Aberffraw Alliance wrth i aelodau'r Gynghrair bleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol neu gyfarfod arbennig ble bydd dwy ran o dair o'r aelodau yn bresennol ac yn cytuno.

Os penderfynir terfynu Cynghrair Bro Aberffraw Alliance, ni ellir rhannu unrhyw arian nac eiddo yn perthyn i'r pwyllgor (ar ôl talu dyledion neu alldaliadau) rhwng yr aelodau; yn hytrach, fe'u rhoddir i grwpiau eraill neu gymdeithasau elusennol sydd ag amcanion tebyg.
Gellir diddymu'r Gynghrair drwy bleidlais pan fydd o leiaf dwy ran o dair o'r pwyllgor yn bresennol.

Arwyddwyd_____ (Cadeirydd)

Arwyddwyd_____ (Cadeirydd)

Dyddiad arwyddo a chymeradwyo'r Cyfansoddiad _____

Cynghrair Bro Aberffraw Alliance Constitution

1. **TITLE**
The Group will be referred to as Cynghrair Bro Aberffraw Alliance

2. **MISSION STATEMENT**
Cynghrair Bro Aberffraw Alliance is a partnership between the communities of the Bro Aberffraw ward, public services, local businesses and the third sector, who have a vested interest in the health and wellbeing of the residents of the area. The representatives all work together to guide the design and delivery of services that suit the needs of the community of Bro Aberffraw.

3. **AIMS and OBJECTIVES**

- To promote strong and resilient communities within the Bro Aberffraw ward.
- To actively promote and support the Welsh language in the Ward
- To work together to identify opportunities for joint delivery and design of local services.
- To ensure that individuals and groups enjoy equality of opportunity, and access to services that suit their needs.
- To identify and apply for appropriate funding to help to address identified priorities.
- To promote a healthy and active lifestyle, employment and education opportunities for everyone in our community.
- To work in partnership with agencies and associations, both locally and nationally to provide a well co-ordinated approach to planning for the future of the ward.

4. **MANAGEMENT**
The day-to-day management of the alliance will be in the hands of Honorary Officers of Cynghrair Bro Aberffraw Alliance, elected at the Annual General Meeting.

5. **THE OFFICERS**
Officers of Cynghrair Bro Aberffraw Alliance will be Chair, Vice-Chair, Secretary, and Treasurer who will remain in office for one year. Officers' names may be put forward for re-election at the Alliance's AGM.

6. **MEMBERSHIP**
Membership of the Alliance will be open to residents, community groups, organisations and businesses in the Twrcelyn ward and will include:
Representatives of Community Organisations and Groups in the Bro Aberffraw ward
Town and Community Council representatives.
Medrwn Môn
Benllech and District Good Turn Scheme
Anglesey County Council
Betsi Cadwaladr University Health Board.

This list is not exhaustive and can be added to by the members in a meeting of the Alliance

New members can be co-opted on to the list where the current members and Officers feel this is appropriate to meet the priorities of the Alliance.

7. **THE ALLIANCE'S ANNUAL GENERAL MEETING**

The Alliance's annual general meeting will be held each XXX- a year to the date of signing of the constitution

The secretary must give at least 10 days notice of the date, time and location of this meeting. In keeping with the requirements of the constitution, the secretary must also be responsible for sending out the agenda, as well as a copy of the annual report and balance sheet for the previous financial year.

8. **CYNGHRAIR BRO ABERFFRAW ALLIANCE**

The Chairman will chair each meeting if present. Otherwise the Vice-Chair will chair the meeting.

If neither the Chair nor the Vice-Chair is present, the members present may elect a chairman from those members who are present.

It is necessary to have at least 5 of the voting members present in order to hold a meeting of the Cynghrair Bro Aberffraw Alliance.

The Alliance will aim to have a representative of the Town and Community Council areas in the Bro Aberffraw Ward.

Meetings of the Cynghrair Bro Aberffraw Alliance will be open to all to attend with the nominated representatives of the Alliance having voting rights in terms of decisions relating to matters relating to decisions on funding applications and spending.

9. **VOTING**

i. In each meeting matters may be decided upon by a show of hands.
ii. Whilst more than one member of an organisation is able to attend meetings of the Alliance, each organisation or group is entitled to only one vote
iii. The Chair of the Alliance has the right to their own vote as well as a casting vote where the vote is tied.

10. **FINANCIAL**

i. Cynghrair Bro Aberffraw Alliance has the right to administer the funding, and money secured by the project to promote their aims and objectives
ii. Everything that is bought on behalf of the group, and is used by the officers or the members will remain the property of Cynghrair Bro Aberffraw Alliance

iii. At least two signatories must authorise payment on any transaction on behalf of the group. Signatories will the Treasurer and any one of two other officers of the Alliance.
iv. An income and expenditure sheet will be provided at the end of each financial year and accounts must be independently checked and approved yearly.
v. Evaluating and monitoring processes will be established by the Alliance in order to ensure that they are able to provide the necessary feedback and reports to external funders

11. **CHANGING THE CONSTITUTION**
The constitution may be changed, improved or added to, but only during an Extra-ordinary Meeting of the Alliance or at the Alliance's Annual General meeting through a vote by at least two thirds of the voting members present.

An Extra-ordinary Meeting of the Alliance can be called by no fewer than 5 members of the Alliance.

Any change, improvement or addition to the constitution should be made through a notice of motion and presented to the secretary at least one month prior to the calling of an Extra-ordinary Meeting or the annual general meeting.

12. **DISSOLUTION**
The Cynghrair Bro Aberffraw Alliance can be dissolved by a vote of the members of the Alliance at and AGM or EGM where two thirds of the members are present and in agreement.

If it is decided to terminate Cynghrair Bro Aberffraw Alliance no monies or possessions belonging to the committee (following the payment of debts or outgoings) may be shared between the members, rather they will be given to other groups or charitable
societies with similar objectives.
It may be wound up through vote when at least two-thirds of the committee are present.

Signed_____ (Chair)

Signed_____ (Secretary)

Date Constitution signed and approved_____